

Y Côt Cefn Gwlad

Cadwch at y Côt Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

Parchu pobl eraill

- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadwch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciaiu sydd wedi'u marcio

Gwarchod yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gwn ar dennyn bob amser
- Peidiwch byth â chasglu nad adwreiddio planhigion

Mwynhau'r awyr agored

- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

Respect other people

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

Protect the natural environment


- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs on a lead at all times
- Never pick or uproot plants

Enjoy the outdoors

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs



Lleoliad / Location



Mae'r warchodfa wedi'i lleoli tua 1km i'r dwyrain o Afonwen, Sir y Fflint, ar yr A541 rhwng yr Wyddgrug a Dinbych. Wrth fynd tua'r dwyrain, trowch i'r chwith oddi ar yr A541 wrth Gapel Y Ddôl a dilynwch y lôn am 400m. Trowch i'r chwith yn y gyffordd – mae'r fynedfa a'r maes parcio ar y chwith gyferbyn â The Mill (SJ 142 713). Map OS Explorer 265 what3words ///crypt.rely.inspected

The reserve is located approx. 1km east of Afonwen, Flintshire, on the A541 between Mold and Denbigh. Heading E, turn L off the A541 at Y Ddôl Chapel and follow the lane for 400m. Turn L at the junction – the entrance and car park are on the L opposite The Mill (SJ 142 713). **OS Explorer Map 265** what3words ///crypt.rely.inspected



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

northwaleswildlifetrust.org.uk



North Wales Wildlife Trust

Llys Garth, Garth Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

01248 351 541


info@northwaleswildlifetrust.org.uk

Registered Charity Number: 230772 / Company Number 773995

GWARCHODFA NATUR

Ddôl Uchaf

NATURE RESERVE



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust



Cadwch mewn cysylltiad!

Ewch i'n gwefan ni am y newyddion diweddaraf a chofrestrwch i dderbyn ein e-gylchlythyr am ddim

Stay in touch!

Visit our website for the latest updates and sign up today for your free e-newsletter

www.northwaleswildlifetrust.org.uk





Daeareg ar waith

Mae'r hen safle chwarel yma'n ffynnu heddiw fel clytwaith o gynefinoedd sy'n gyforiog o fywyd gwyllt.

Mae'r priddoedd llawn calchfaen yn creu amodau perffaith ar gyfer blodau gwyllt y glaswelltir gan gynnwys briallu Mair, eurinllys a'r tegeirian brych, gyda brial y gors yn tyfu o amgylch ymylon y pyllau. Yn gyfeiliant i olau brith yr haul ar flodau'r gwanwyn ar hyd llawr y coetir mae trac sain heddychlon y dŵr yn rhedeg a chân yr adar, gyda dyfrgwn a bronwen y dŵr i'w gweld ar hyd glan yr afon. Mae canopi gwyrdd, ir y coetir yn cynnwys sycamorwydd, ynn a helyg, ac mae'r haen isaf yn cynnwys drain gwynion, ysgaw a chyll – cartref pathew y cyll. Mae clai marl gweddillol y safle'n helpu i ddal dŵr glaw, gan ffurfio pyllau sy'n cael eu ffurfio gan bob un o'r tair rhywogaeth frodorol o fadfallod dŵr – cyffredin, palfog a chribog – yn ogystal â nadroedd y gwair a llawer o weision y neidr.

Geology in action

This former quarry site today flourishes as a patchwork of habitats brimming with wildlife.

The limestone-rich soils create perfect conditions for grassland wildflowers including cowslips, St John's-wort and common spotted orchid, with grass of parnassus growing around pond edges. The dappled sunlight on the springtime flowers along the woodland floor is accompanied by the calming soundtrack of running water and birdsong, with otter and dipper found along the river. The lush green woodland canopy is made up of sycamore, ash and willow, the lower storey includes hawthorn, elder and hazel – home to the hazel dormouse. The site's residual marl clay helps capture rainwater, forming ponds favoured by all three native species of newt – smooth, palmate and great crested – as well as grass snakes and many dragonflies.



Os byddwch chi'n ymweld ar ddiwrnod heulog tua diwedd y gwanwyn, efallai y byddwch chi'n ddigon ffodus i weld miloedd o **gylion Mai** yn ffurfio heidiau paru enfawr sy'n dawnsio uwchben yr afon.

If you visit on a sunny late spring day, you might be lucky enough to see thousands of **mayflies** forming huge mating swarms which dance above the river.



Cymerwch gipolwg ar y pyllau bach sy'n frith o amgylch y ddôl yn ystod y gwanwyn – os byddwch chi'n lwcus, fe welwch chi **fadfall ddŵr** yn sbecian!

Take a peek into the small ponds dotted about the meadow during the spring – if you are lucky you will see a **newt** peeking its head out!

Ewch ar helfa gnau! Chwiliwch drwy ddail yr hydref ar lawr y coetir i weld allwch chi ddod o hyd i unrhyw gnau cyll gyda thyllau bach crwn ynddyn nhw – efallai mae **pathewod** sydd wedi cnoi'r rhain!



Go on a nut hunt! Rifle through the autumn leaves on the woodland floor and see if you can find any hazelnuts with small round holes in them – these may have been nibbled by a **dormouse**!

Wrth fynd am dro yn y gwanwyn drwy'r coetir byddwch yn clywed synau adar yn nythu. Ceisiwch adnabod y dryw, y titw cynffon hir, telor y cnau, y **telor penddu** a'r siff-siaff.















A springtime walk through the woodland is filled with the sounds of nesting birds. Try to identify wrens, long-tailed tits, nuthatches, **blackcaps** and chiffchaffs.



Oeddech chi'n gwybod? Mae'r warchodfa'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) oherwydd ei chyfansoddiad daearegol unigryw. Mae chwarela wedi creu tir afreolaidd o byllau a thomenni rwbwl sydd heddiw'n gartref i lawer o gynefinoedd mewn ardal fechan.

Did you know? The reserve is a Site of Special Scientific Interest (SSSI) due to its unique geological composition. Quarrying has created an irregular terrain of pits and spoil heaps which today supports many habitats in a small area.

Canllaw / Key


E Mynedfa / Entrance	P Parcio / Parking	 Coed collddail / Deciduous trees
 Ffin y warchodfa / Reserve boundary	 Llwybr troed cyhoeddus / Public footpath	 Llwybr canitaol / Permissive footpath
 Clogwyn / Crag	 Ffordd fawr / Major road	 Ffordd fechan / Minor road
 Terfyn cae / Field boundary	 Afon / River	 Dŵr agored / Open water
 Glaswelltir / Grassland	 Adeiledig / Built	
 Coetir collddail / Deciduous woodland		

Mynediad a diogelwch

Maes parcio bychan ger y brif fynedfa, mae'r maes parcio ar glo dros nos; parcio ychwanegol 5 munud i ffwrdd ar droed yn y gilfan ar yr A541. Mae'r llwybr cylch o amgylch y warchodfa yn wastad yn bennaf, yn hawdd ei gerdded ond yn anaddas ar hyn o bryd ar gyfer cadeiriau olwyn oherwydd stepiau mewn rhai manau. Gall fod yn wlyb ac yn llithrig ar ôl glaw.

Access and safety

Small car park by the main entrance, this car park is locked at night; additional parking 5 minutes walk away in lay by on A541. The circular path around the reserve is mostly flat, easy walking but currently unsuitable for wheelchairs because of steps in some places. It can be wet and slippery after rain.



Rheoli Bywyd Gwylt

Yr allwedd i reoli holl gynefinoedd y Ddôl Uchaf yw cynnal amrywiaeth – sicrhau bod popeth yn aros yn gytbwys. Mae'r coetir yn cael ei deneuo'n ddethol i reoli'r strwythur oedran ac i wneud yn siŵr bod ardaloedd o ganopi agored yn parhau, gan ganiatáu aildyfiant naturiol. Rydym yn mynd ati i reoli ardaloedd fel coedlannau i annog isdyfiant trwchus ar gyfer pathewod y cyll. Mae'r glaswelltir yn cael ei bladurio bob hydref er mwyn cynnal ei amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau. Mae darnau o'r pyllau'n cael eu clirio a'r lliwaddod yn cael ei dynnu ohonynt bob blwyddyn i wneud yn siŵr bod y dŵr yn parhau i fod ar agor i amffibiaid sy'n magu.



PAUL FURNBOROUGH

Managing for wildlife

The key with managing all habitats at Ddôl Uchaf is maintaining variety – ensuring everything remains in balance. The woodland is selectively thinned to manage the age structure and make sure there are areas of open canopy, allowing natural regeneration to take place. We actively manage areas as coppice to encourage a dense understory for hazel dormice. The grassland is scythed every autumn in order to maintain its rich species diversity. Portions of the ponds are cleared and silt removed every year to make sure that the water remains open for breeding amphibians.

In partnership with / Mewn partneriaeth â:



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

GWANWYN

Telor penddu
Llygad Ebrill >
Cyllion Mai

SPRING

Blackcap
Lesser celandine >
Mayflies



PHILIP PRECEY

HAF

Tegeirian brych
Gweision y neidr >
Blodau'r ddôl

SUMMER

Common spotted orchid
Dragonflies >
Meadow flowers



ZSUZANNA BIRD

HYDREF

Ffyngau'r hydref
Telor y cnau >
Lliwiau'r coetir

AUTUMN

Autumn fungi
Nuthatch >
Woodland colours



NELL ALDRIDGE

GAEAF

'Allwedd' sycamorwydden
Bronwen y dŵr >

WINTER

Sycamore 'keys'
Dipper >



ANDY ROUSE | 2020/2019

Da ni angen eich cefnogaeth!

Un o mwyn na 30 Gwarchodfa Natur sydd yn berchen i, neu sydd yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau rydym yn anelu i adfer, ail greu ac ailgysylltu cynefinoedd rhanedig er mwyn cyflawni tirwedd ble all fywyd gwylt ffynnu a ble all pobl fyw bywydau fwy iachus a hapus.

Rydym ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plis helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

- ✓ **Dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- ✓ **Gwirfoddolwr** – yma neu yn un o'n gwarchodfeydd natur eraill
- ✓ **Gadewch Waddol** – fe fydd pob rhodd ym mhob Ewyllys, boed yn fach neu'n fawr, yn gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd gwylt lleol



We need your support!

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural

habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

- ✓ **Become a member** for just a few pounds a month
- ✓ **Volunteer** – whether here or at one of our other nature reserves
- ✓ **Leave a Legacy** – every gift in every Will, however large or small, makes a difference to your local wildlife

www.northwaleswildlifetrust.org.uk